***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1099 (Cy. 109)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *26 Ebrill 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Mai 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 20 Mai 2014.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**2**).

### Diwygio Rheoliadau 2007

**3.**—(1) Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yng ngholofn 2 o Dabl A yn Atodlen 1 (addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987), yn yr addasiad o reoliad 45 (terfyn cyfalaf), yn lle "£23,250" rhodder "£24,000".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2008/1480 (Cy.153), O.S. 2011/681 (Cy.100) ac O.S. 2012/800 (Cy.109). Mae diwygiadau eraill, nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

26 Ebrill 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae'r Rheoliadau hynny yn darparu ar gyfer talu treuliau teithio i bersonau, ymhlith eraill, sydd ar incwm isel, a pheidio â chodi ffioedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ar y personau hynny, drwy gyfeirio at derfynau ar eu hincwm a'u cyfalaf.

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan Reoliadau 2007 er mwyn canfod a oes hawlogaeth gan y person hwnnw i beidio â thalu ffioedd GIG ac i gael taliad o dreuliau teithio GIG, mae fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 wedi ei chymhwyso.

Mae rheoliad 3 yn newid yr addasiad i reoliad 45 o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987, er mwyn codi'r terfyn cyfalaf rhagnodedig i £24,000 o 20 Mai 2014 ymlaen.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.